

## Mae'n wir felly!

*“Pethau na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ... y cwbl a ddarparodd Duw ar gyfer y rhai sy'n ei garu.” (adn. 9)*

### Beth am ddarllen 1 Corinthiaid 2:1–16 ac yna myfyrio

Yr ydym am dreulio un diwrnod arall yn meddwl sut y bu i Iesu, yr un sydd â chydymdeimlad yn ei galon, yr un sydd yn gwybod ffeithiau bendigedig am y nefoedd, ddatguddio'r ffeithiau yma i'w ddilynwyr. A fuasai'n bosibl i ddychmygu y byddai Columbus, o ddarganfod yr Amerig, yn dymuno cadw'r wybodaeth yma iddo ef ei hunan, neu y buasai Capten Cook, o ddarganfod Seland Newydd, yn dymuno gadael y byd heb wybod am ei ddarganfyddiad? Mae'r ddwy sefyllfa yma yn anghredadwy o ystyried cymeriad a dyheadau'r dynion hyn. Yr un modd, nid yw'n bosibl i ni feddwl y buasai Iesu, wedi treulio tragwyddoldeb ym mhresenoldeb ei Dad, bellach am gelu oddi wrth ei ddilynwyr, y gogoniant sydd yn perthyn i'r byd hwnnw. Mae'n dweud: “Os mai ond deg a thrigain o flynyddoedd o fywyd y gellwch ei ddisgwyl, yr wyf am fod yn onest â chi ac yr wyf am eich annog i wneud y gorau ohonynt, ond, yn nhŷ fy Nhad.”

Fe ddywedir am yr Athro T. H. Huxley, gŵr a fathodd y term ‘agnostig’ i ddisgrifio ei hunan, ei fod ychydig cyn marw wedi newid ei feddwl ac wedi dod i gredu yn Nuw ac mewn bywyd y tu hwnt i'r bedd. Wrth iddo orwedd yn marw, yn ôl ei weinyddes, fe chododd ei hun i fyny, gan edrych i'r pellter fe petai yn edrych am rywbeth oedd yn anweladwy, ac yna fe syrthiodd yn ôl ar ei obennydd gan sibrd, “Mi roedd yn wir, mi roedd yn wir!”

Nid oes angen y fath ddatguddiad â hyn ar Gristnogion i'w perswadio ynglŷn â realiti y nefoedd. Mae'n ddigon i mi ein bod wedi ei glywed ef yn dweud, “Yn nhŷ fy Nhad, y mae llawer o drigfannau. Pe na byddai felly, buaswn wedi dweud wrthyhch.” Nid oes angen gweledigaeth ar yr un sydd wedi clywed y gair hwn.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Cor. 12:1–10; Luc 23:43; Dat. 2:7

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd tystiolaeth Paul?
2. Pa air arall mae Paul yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'r nefoedd?

### Gweddi

O Dad, sut y gallwn wybod fod yna nefoedd, oni bai fod yna rywun wedi dweud wrthyf? Mae rhywun wedi dweud wrthyf, rhywun yr wyf yn ei gredu, dy Fab dy hunan. Yn awr, mae fy holl ofnau wedi diflannu. Rwyf am ddiolch i ti. Amen.